



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## **Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**

**8 Tachwedd 2019**

**9:00 am to 12:30 pm**

**Optic, Llanelwy**

Yn bresennol: Dave Worrall (Cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Morwena Edwards, Bethan E Jones, Charlotte Walton, Cyngh. Bobby Feeley, Cyngh. Christine Jones, Cyngh. Joan Lowe (JLo), Cyngh. Louise Emery, Cyngh. Dafydd Meurig, Ffion Johnstone, Jennie Lewis (JLe), Jenny Williams, Kevin Roberts, Marian Wyn Jones, Mark Wilkinson (MWil), Neil Ayling, Peter Williams, Rob Smith, Helen Corcoran, John Gladston, Alwyn Jones, Geraint Davies (yn bresennol ar ran Wendy Jones), Roma Hooper (yn bresennol ar ran Lynda Colwell), Lesley Singleton

Ymddiheuriadau: Teresa Owen, Clare Budden, Wendy Jones, Lynda Colwell, Mary Wimbury, Nicola Stubbins, Judith Greenhalgh, Estelle Hitchon, Catherine Elaine Jones, Shan Lloyd Williams Chris Stockport, Llinos Medi Huws.

Hefyd yn bresennol: Claire Brennan, BIPBC (ar gyfer eitem 3 ar y rhaglen)  
Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru (ar gyfer eitem 6 ar y rhaglen)  
Kirrin Davidson, Ymgynghorydd Polisi, Comisiynydd Plant Cymru (ar gyfer eitem 6 ar y rhaglen)

### **1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb. Cyflwynodd pawb ei hun a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod. Estynnwyd croeso cynnes i'r cynrychiolydd newydd o Heddlu Gogledd Cymru sy'n bresennol yn y Bwrdd, Helen Corcoran (Arolygydd Diogelwch Cymunedol).

### **2 Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref fel cofnod dilys o'r cyfarfod.

Camau gweithredu sydd eto i'w cwblhau:

- Adolygiad pwynt canol o raglen Cymru Iachach i'w rannu â BARhGC.

Materion yn codi:

- Dywedodd BJE fod digwyddiad Dysgu BPRh LIC wedi'i ohirio ac y bydd dyddiad arall ar gael yn fuan yn y Flwyddyn Newydd.

Unwaith eto dywedodd aelodau'r BPRh eu bod yn anfodlon â diffyg cyfleusterau telathrebu/skype/fideo gynadledda, sy'n golygu bod holl gynrychiolwyr Gogledd Cymru'n methu â chymryd rhan yng nghyfarfodydd a digwyddiadau LIC heb orfod teithio i Gaerdydd. Mae aelodau BPRh Gogledd Cymru'n bryderus ynglŷn â'r amser a'r gost o orfod teithio'n gyson i Gaerdydd ond maent yn awyddus i gymryd rhan ym mhob digwyddiad ond yn gyndyn o deithio i Gaerdydd ar gyfer pob un o'r cyfarfodydd. Mae angen i LIC gynnal nifer deg o'r digwyddiadau hyn yng Ngogledd Cymru.

*Camau Gweithredu*

- TO i ysgrifennu i LIC.

### **3 Cynlluniau'r Gaeaf**

Derbyniodd y bwrdd ddiweddiariad gan LS ar y cynnig Cynllun y Gaeaf ar gyfer Gogledd Cymru, rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2020.

Cyflwynodd LS gyd-destun yr adroddiad, gan ddweud bod LIC wedi gofyn i PBC a'r BPRh ddatblygu cynllun ar y cyd mewn cydweithrediad ar draws dwy ffrwd ariannu ar wahân, ond gyda LIC wedi gosod dau ddyddiad cyflwyno gwahanol ar gyfer bob cais, cais BIPBC (23.10.2019) a chais y BPRh (15.11.2019).

Datblygwyd a chytunwyd ar gynlluniau dyrannu BPRh Gogledd Cymru yn lleol drwy'r Byrddau Gwasanaeth Integredig Ardal (BGIA) wedi'u rhannu'n ôl poblogaeth.

Datblygwyd dyraniad BIPBC Gogledd Cymru hefyd gan weithio'n agos gyda'r tri BGIA, ac adeiladu ar gynlluniau sydd wedi'u profi'n llwyddiannus hyd yma. Cwblhawyd gwaith sylweddol i sicrhau bod y ddwy set o gynlluniau'n cyd-fynd â'i gilydd.

Mae llythyr dyraniad LIC yn nodi bod disgwyl i'r rhanbarth gydymffurfio â nifer o brif themâu a nodwyd trwy ddysgu o aeafau blaenorol ac a ddatblygwyd ar draws lechyd a Gofal Cymdeithasol. Hefyd mae disgwyl i'r rhanbarth gyflwyno data monitro bob mis o safbwynt cynlluniau gwariant PBC a'r BPRh yn erbyn data gweithgarwch drwy'r broses ICF. Nid yw hyn yn unol â chyllid ICF sy'n gofyn am adrodd chwarterol. Bydd yn waith ychwanegol yn lleol ac yn rhanbarthol.

Bydd y Byrddau Gwasanaeth Integredig Ardal a'r Grŵp Arweinyddiaeth yn darparu trosolwg o gynnig y BPRh a bydd BIPBC a'r Grŵp Arweinyddiaeth yn darparu trosolwg o gynnig BIPBC i sicrhau dull integredig a chyd-fonitro.

Rhoddodd holl Gyfarwyddwyr Ardal BIPBC sicrwydd ac roeddent yn gytûn fod trafodaethau niferus wedi'u cynnal ar lefel leol ynglŷn â defnyddio cyllid Cynllun y Gaeaf.

Lleisiodd JLo bryder ynghylch nifer y gweithlu ychwanegol oedd ei angen i weithredu'r cynlluniau a chadarnhaodd FJ y gwneir hyn trwy ddefnyddio staff banc, taliadau goramser a thrwy gyflogi staff ychwanegol ar gontractau tymor byr.

Holodd DW hefyd am y rheswm pam fod LIC wedi dyrannu dau bot ariannol ar wahân ac awgrymodd y dylai LIC yn y dyfodol ddyrannu un dyraniad ariannol a bod un cynllun ar gyfer Gogledd Cymru gyfan yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno.

Awgrymodd ME fod y gost a'r amser yn gysylltiedig â chyflwyno adroddiad misol ar y gwaith hwn yn cael ei gynnwys hefyd fel rhan o'r drafodaeth gyda LIC.

Cadarnhaodd Claire Brennen fod fersiwn drafft o gynllun BIPBC wedi'i gyflwyno i LIC 23.10.2019 yn ôl y gofyn cyn i'r BPRh ei gymeradwyo heddiw.

Roedd y Cynghorydd BF yn croesawu'r adroddiad a'r cynllun ond yn cwestiynu lle'r oedd Meddygon Teulu'n ffitio i mewn i'r cynlluniau a'r dyraniadau. Cadarnhaodd BEJ fod arian ychwanegol wedi'i ddarparu ar gyfer clystyrau sy'n cynnwys y Meddygon Teulu fel dyraniad ar wahân.

Awgrymodd y Cynghorydd JLo fod diweddariad byr o Gynllun y Gaeaf yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod Ionawr.

Roedd BARhGC yn cytuno y dylid cymeradwyo Cynlluniau'r Gaeaf ar gyfer Gogledd Cymru a'u bod yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru.

#### *Camau Gweithredu*

- TO i ysgrifennu i LIC yn cynnig un dyraniad ariannol yn y dyfodol
- Rhaglen Cynllun y Gaeaf diweddariad yn Ionawr - RW

#### **4 Diweddariad Cronfa Gofal Integredig (CGI)**

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad gan NA ar adroddiad 6 mis CGI oedd yn cynnwys manylion y gwaith a gwblhawyd yn y cyfnod adrodd hwn.

- Mae swydd rheolwr prosiect a swydd cefnogi prosiect wedi'u llenwi bellach a bydd y ddau swyddog yn dechrau ar 11.11.2019.
- Mae nifer o gamau'n parhau yn sgil gofynion grant LIC:
  - Mae swyddog cyfreithiol CSDd wedi nodi nifer o newidiadau y dylid eu cynnwys yn y Cytundeb Partneriaeth ac mae'n argymhell defnyddio'r cymal Amrywiad yn y cytundeb i reoli'r newidiadau angenrheidiol ac ymestyn y telerau hyd at ddiwedd Mawrth 2021.

- Yr angen i bob rhanbarth ddatblygu cynllun cyfathrebu ar gyfer ei ddefnydd o CGI. Yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd i fodloni gofynion LIC.
- Bod y Cynllun Buddsoddi Refeniw yn ddogfennau cyhoeddus. Hyd yma mae CGI Gogledd Cymru wedi cyhoeddi'r dangosfwrdd CGI a bydd yn anfon y Cynllun Buddsoddi Refeniw ymlaen at unrhyw un sy'n gofyn amdano, yn sgil gofynion hygyrchedd y wefan a gofynion yr iaith Gymraeg ac mae LIC yn ymwybodol o hyn.
- Mae Cynlluniau Buddsoddi Refeniw CGI wedi'u cwblhau a'u cyflwyno i LIC. Mae tanwariant a nodwyd ar gyfer y meysydd bellach wedi cael sylw ac maent wedi'u cynnwys yn y fersiwn diweddaraf o'r Cynllun Buddsoddi Refeniw. Mae'r BGIA yn gyfrifol am gynnal trosolwg o'r rhaglen i sicrhau bod tanwariant yn cael ei reoli'n lleol.
- Trafodwyd Cyfalaf CGI yng nghyfarfod craffu LIC a chyflwynwyd dogfennau pellach ar nifer o gynlluniau. Mae'r rhanbarth yn parhau i weithio gyda LIC i weithredu'r pwyntiau cymeradwyo angenrheidiol a gofynnir i bob partner gwblhau ffurflen newidiadau a'i chyflwyno i'r tîm rhanbarthol i gynnal trosolwg o unrhyw newidiadau, defnydd arall ar gyfer y cyllid a darparu trywydd archwilio.

Gofynnodd DW am eglurhad ynghylch y cymal Amrywiad ac ymestyn telerau'r Cytundeb Partneriaeth CGI hyd at Fawrth 2021. Esboniodd BJE fod y cytundeb presennol yn eu hymrwymo tan fis Mawrth 2020, a bod gwasanaethau cyfreithiol wedi argymhell cynnwys yr holl newidiadau gan gynnwys ymestyn telerau'r cytundeb drwy'r cymal Amrywiad i Fawrth 2021, fel dull arall o greu cytundeb ffurfiol llawn newydd.

Holodd ME ynghylch gofyniad LIC i gyhoeddi'r Cynllun Buddsoddi Refeniw a'r heriau a wynebir o bosibl gan LIC. Dywedodd BJE y byddai'r Cynllun Buddsoddi Refeniw, ar ei ffurf bresennol, yn anodd iawn ei drosglwyddo i'r wefan, o ran y costau fformatio a chyfieithu gan ei bod yn daenlen Excel fanwl iawn. Fodd bynnag, rydym wedi cyhoeddi ein dangosfwrdd ar y wefan.

Tynnodd MWJ sylw at y canllawiau newydd a'r angen i gysoni cyllid CGI ymhellach tuag at anghenion tai. Hefyd ofynnodd MWJ sut mae Canolfan Lles Wrecsam yn bwriadu gweithio gyda'r ddarpariaeth ddigartrefedd bresennol sydd eisoes wedi'i sefydlu yng nghanol Tref Wrecsam.

Cadarnhaodd RS y bydd y datblygiad newydd yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth ddigartrefedd sydd eisoes wedi'i sefydlu yn Wrecsam yn hytrach na'i ddisodli. Mae'r Ganolfan Lles mewn lleoliad canolog gyda chysylltiadau cludiant da, dewis o weithgareddau ar gyfer cysylltu â holl anghenion oedolion a phlant. Bydd y ganolfan yn gyfle i helpu i integreiddio a thrawsnewid, gan gysylltu â gweledigaeth CGI â Cymru iachach.

Dyweddodd JG yn sgil dyletswydd y comisiwn elusennau, nad yw elusennau'n ymddangos fel pe baent yn gweithio ar y cyd e.e. ar ôl 30 mlynedd mae'r Tîm Achub Mynydd yn dal i fodoli ac yn gweithio ar ei ben ei hun, yn hytrach na bod yr holl wasanaethau brys o fewn un ganolfan gyswllt. Awgrymodd DW fod yr eitem hon yn cael ei thrafod ymhellach mewn cyfarfod o'r BPRh yn y dyfodol.

Roedd aelodau BARhGC yn cytuno y dylid cymeradwyo'r argymhellion canlynol:

- Bod partneriaid yn nodi'r gwaith helaeth sydd wedi digwydd hyd yma i gynhyrchu'r gwahanol raglenni a ariennir drwy CGI o fewn Gogledd Cymru. Mae CGI bellach yn ffrwd ariannu bwysig ac mae'r gwaith o'i rheoli'n rhanbarthol a lleol i fodloni gofynion grant Llywodraeth Cymru cynyddu'n barhaus.
- Bod partneriaid yn cytuno i ddefnyddio'r cymal Amrywiad yng Nghytundeb Partneriaeth ICF i reoli gofynion canllawiau CGI a rheoli'r dasg o ymestyn y cytundeb hwn o 1 flwyddyn hyd at ddiwedd Mawrth 2021.
- Bod partneriaid yn nodi bod rhai rhaglenni cyfalaf yn dal heb eu cymeradwyo'n llawn ac y bydd angen gwneud trefniadau i reoli unrhyw danwariant cyfalaf y gallai hyn ei achosi.
- Bod Byrddau Gwasanaeth Integredig Ardal yn goruchwyllo darpariaeth a gwariant i leihau unrhyw danwariant.
- Bod Bwrdd System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn goruchwyllo gwariant i leihau tanwariant.
- Bod IAS yn cytuno sut y bydd eu casgliad data ar-lein newydd yn cael sylw drwy'r drefn lywodraethu ranbarthol cyn cael ei gyflwyno'n genedlaethol.

#### *Camau Gweithredu*

- DW/JG – rhaglen y tîm Achub Mynydd ar agenda yn y dyfodol.

## **5 Cynllun Car Cymunedol Conwy Wledig**

Derbyniodd y bwrdd ddiweddariad gan Geraint Davies, hwylusydd iechyd a Lles ar gyfer Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CGGC) ac Arweinydd Clwstwr yng Ngorllewin Conwy, ar Gynllun Car Cymunedol Conwy Wledig.

Eglurodd GD sut mae'r cynllun wedi datblygu i fynd i'r afael â phroblemau cludiant i helpu unigolion mewn cymunedau gwledig drwy Gonwy i fynd i apwyntiadau Meddygon Teulu a gofal eilaidd.

Rhoddodd BIPBC gymorth gan sicrhau mynediad i'w cynllun prydlesu cost effeithiol i brynu cerbyd y gallai pobl anabl ei ddefnyddio.

Dyweddodd DW y byddai'n helpu'r trydydd sector pe câi weld y cais loteri ar gyfer y cynllun, gan mai un o'r heriau mwyaf yng Ngogledd Cymru yw cludiant

cymunedol. Dywedodd GD fod y cais yn cael ei arwain gan y gymuned ac yn gysylltiedig â gofal sylfaenol.

Soniodd y Cyngorydd LE am brosiect yr Arweinydd, yr un math o brosiect y gwrthodwyd rhoi arian loteri tuag ato am nad oedd yn gost effeithiol a gofynnodd pa mor gost effeithiol a darbodus yw'r cynllun.

Cadarnhaodd GD fod y costio'n cael ei weithio allan yn fanwl, ymgynghorwyd â chwmnïau tacsï gan nodi nad oedd gwrthwynebiad i'r cynllun. Byddai'r ffigurau ar gael ar ddiwedd y tair blynedd yn symud i gynllun mynediad aelodaeth menter gyda ffi flynyddol a chost ansylweddol am logi, yn seiliedig ar fodel llwyddiannus yn Sir Benfro.

Hefyd dywedodd y Cyngorydd CJ fod cynllun tebyg yn Sir y Fflint yn cynnig gwasanaeth o ddrws i ddrws gydag aelodaeth yn costio £10 y flwyddyn, 45c y filltir. Dyma enghraifft o gynllun llwyddiannus arall nad yw'n effeithio ar dacsï lleol, ond sydd eto'n darparu gwasanaethau hollbwysig i fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd.

Ychwanegodd AJ fod nifer o gynlluniau rhagorol tebyg drwy Ogledd Cymru a chwestiynodd sut y galla rôl y bwrdd annog mwy o grwpiau tebyg, gyda chlodiant cymunedol yn dod yn fater gwledig rhanbarthol.

Holodd JLe lle gellir dod o hyd i'r wybodaeth leol am y cynlluniau hyn ac a yw'r cynlluniau hyn ar gael i unigolion sy'n cael mynediad i daliadau uniongyrchol yn hytrach na pheccynnau cymorth.

Awgrymodd y Cyngorydd BF y dylid cynnal ymarferiad i ddwyn ynghyd y gwahanol brosiectau cludiant hyblyg o fewn bob sir i weld beth sydd ar gael a chyflwyno'r wybodaeth gerbron y PGRh i gael trosolwg o'r holl wasanaethau sydd ar gael, yn cynnwys nifer y cerbydau trydan.

DW a BJE i drafod sut y gellir cyflwyno hyn i'r Bwrdd ei drafod.

## **6 Comisiynydd Plant Cymru**

Bu Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, yn bresennol i drafod gwaith yr BPRh o ran rhoi'r flaenoriaeth i sefydlu gwasanaethau integredig ar gyfer 'plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch ac ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl'.

Rhoddodd yr BPRh gyflwyniad yn canolbwyntio ar:

- Y trefniadau llywodraethu
- Trefniadau gwasanaeth integredig ar gyfer pontio anableddau dysgu
- Anghenion emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl

- Effeithiolrwydd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol

Cafodd aelodau'r Bwrdd drafodaeth ar y materion amrywiol gyda Sally Holland.

## **7 Unrhyw Fater Arall**

Dywedodd DW wrth y Bwrdd mai cyfarfod heddiw fyddai cyfarfod olaf MWJ o'r BPRh a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch iddi am ei chyfraniad gwerthfawr i'r Bwrdd dros y blynyddoedd.

Diolchodd MWJ i'r Cadeirydd a manteisiodd ar y cyfle i rannu ei sylwadau am y Bwrdd; gan ddweud ei fod yn galonogol gweld sut yr oedd y Bwrdd wedi datblygu yn y blynyddoedd diwethaf, gyda chynlluniau arloesol sylweddol yn digwydd drwy Ogledd Cymru. Mae wedi bod yn fraith cael bod yn rhan o'r BARhGC a'r trawsnewid sy'n digwydd drwy Ogledd Cymru ar hyn o bryd. Dymunodd MWJ yn dda i'r Bwrdd yn y dyfodol.

## **8 Dyddiad y cyfarfod nesaf: dydd Gwener 6 Rhagfyr 2019 9:00 – 11:30 yb**